Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Asesiad Effaith Cyfunol ar gyfer Adolygiad Buddsoddi 2023

## Enw'r polisi, strategaeth, prosiect, rhaglen neu gynllun – y Cynnig

Penderfyniadau Adolygiad Buddsoddi 2023

**Newydd:**

**Diweddariad i'r fersiwn bresennol:** Ydy

| | |
|---|---|
| Tîm/Adran: | Datblygu'r Celfyddydau / CEU |
| Person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad: | Lleucu Siencyn, Angela Thomas, Judith Musker Turner |
| Adolygiad gan: | Diane Hebb |
| Dyddiad yr asesiad: | 30 Mehefin 2022 |
| Dyddiad adolygu: | 26 Hydref 2022 |
| Dyddiad aolygu pellach: | Medi 2023 |

## Cyflwyniad

Pwrpas yr Asesiad o Effaith Gyfunol yma yw sicrhau bod y polisïau a'r strategaethau a ddatblygwn yn hyrwyddo blaenoriaethau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau. Yn yr achos yma, mae'n golygu cydraddoldeb, y Gymraeg a'r 7 nod Llesiant o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Asesiad o Effaith Gyfunol yn cyfrannu at lunio polisïau effeithiol drwy ein hannog i feddwl am effaith a chanlyniadau ein gwaith. Drwy fynd i'r afael â'r materion yma'n benodol ar y cam cynllunio cynharaf, rydym yn debycach o ddatblygu cynigion sy'n bodloni blaenoriaethau'r Cyngor orau. Ac os yw'r broses yma'n nodi problemau, mae gennym gyfle i gymryd camau lliniaru i unioni pethau. Mae'n ein helpu i fodloni ein gofynion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy gydol y ddogfen rydym yn defnyddio'r gair 'Cynnig' i gyfeirio at yr hyn yr ydym yn ei asesu. Yma mae'r term yn cynnwys strategaethau, prosiectau, polisïau, rhaglenni a mentrau gan gynnwys rhai newydd ac unrhyw rai sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu newid neu eu diweddaru'n sylweddol.

Dyma ddrafft diwygiedig o'r Asesiad o Effaith Gyfunol o'r Canllawiau Adolygiad Buddsoddi yr ymgynghorwyd amdanynt ymhlith y cyhoedd rhwng 18 Gorffennaf a 10 Hydref 2022. Mae'r fersiwn yma wedi'i diwygio i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaeth y Cyngor am y ceisiadau i'r Adolygiad Buddsoddi. Mae'n adlewyrchu effaith y penderfyniadau ac yn gosod camau i'w cymryd.

A fyddech cystal ag ymateb i'r cwestiynau canlynol, gan ddarparu lefelau addas o fanylder.

Atebwch y cwestiynau canlynol, gan roi manylion priodol.

## 1. Beth yw prif nodau/dibenion/canlyniadau'r cynnig?

Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd a lles y genedl.

Mewn ymateb i'n byd cyfnewidiol ac wrth inni ddod drwy'r pandemig, gyda'r Adolygiad Buddsoddi byddwn yn nodi dull newydd o ddosbarthu arian amlflwyddyn i sefydliadau. Ein nod yw bod yn fwy hyblyg a chynhwysol yn y ffordd yr ydym yn penderfynu pwy sy'n elwa o'n harian. Bydd symud tuag at ffordd fwy ystwyth o weithio hefyd yn ein galluogi i gymryd golwg hirdymor ar ein harian a bydd yn dyfnhau'r gofyniad i'r sefydliadau a ariannwn gyflawni ein hamcanion.

Mae ein dull gweithredu arfaethedig yn symud o broses ariannu anhyblyg i fodel llawer mwy hyblyg ac ymatebol i sefydliadau, lle rydym yn disgwyl i gyrff a ariannwn gyflawni canlyniadau yn unol â'n blaenoriaethau.

Rydym yn cynnig symud o fodel portffolio i ystod ehangach o opsiynau ariannu amlflwyddyn i sefydliadau ac o ganlyniad byddwn yn chwilio am sefydliadau a ariannwn i weithio mewn partneriaeth â ni i sicrhau bod cymunedau ac unigolion yn cael rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu â chelfyddydau.

Mae'r model newydd yn golygu strwythur newydd ar gyfer arian nad yw'n cael ei gyfyngu gan un cyfle sef yr adolygiad buddsoddi.

Sail cytundebau'r dyfodol fydd tair blynedd o arian gyda'r nod cychwynnol o ychwanegu tair blynedd o arian craidd gan ddibynnu ar ein hyder cyffredin yng nghynnydd parhaus y sefydliadau.

Rydym yn adnewyddu'r egwyddorion buddsoddi sy'n llywio ein penderfyniadau ariannu sy'n seiliedig ar ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein gweledigaeth wedi'i seilio ar y chwe egwyddor ganlynol:

i. **Creadigrwydd**: mae gan gelf y grym i'n cysylltu â'n gilydd a'n helpu i ddeall ein gilydd a'r byd o'n cwmpas. Mae'n herio ein meddwl ac yn tanio ein dychymyg. Wedi'i greu gyda gonestrwydd ac uchelgais, mae'n dod â llawenydd a gobaith i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr.

ii. **Ehangu Ymgysylltiad**: cyrraedd y cymunedau yr ydym yn methu eu cynnwys. Dylai celfyddydau a diwylliant Cymru adlewyrchu bywyd ei holl ddinasyddion ac eto mae llawer o bobl o hyd yn wynebu rhwystrau wrth ymgysylltu â'r celfyddydau.

iii. Rhaid i**'r Gymraeg** fod yn rhan lewyrchus o'n bywyd creadigol. Dylai pobl o bob cefndir allu creu a phrofi'r celfyddydau yn y Gymraeg a chyfranogi ohonynt oherwydd y credwn y dylai pawb gael cyfle cyfartal i gael mynediad at gelf, cymryd rhan ynddi, ei mwynhau a'i chreu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, yng Nghymru.

iv. **Cyfiawnder hinsawdd** drwy greadigrwydd a gwaith sy'n gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn gynaliadwy yn foesegol.

v. **Meithrin talent** ar gyfer dyfodol iach i'r celfyddydau. Mae angen i bob un ohonom sicrhau bod llwybrau sy'n caniatáu i bobl o bob cefndir ddatblygu creadigrwydd, sgiliau ac arweinyddiaeth.

vi. **Trawsnewidiad** – manteisio ar gyfleoedd newydd a mentro, bod yn wydn ac yn ymatebol i newid wrth barhau i fod yn fwyfwy perthnasol i bobl a chymunedau Cymru.

## 2. Ar bwy mae'r Cynnig yn effeithio a phwy yw'r buddiolwyr arfaethedig a sut?

Mae'r cynnig yn effeithio'n bennaf ar sefydliadau sydd yn y Portffolio ac unrhyw sefydliadau nad ydynt yn y Portffolio ar hyn o bryd sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd yr Adolygiad Buddsoddi.

Mae buddiolwyr y cynnig yn cynnwys sefydliadau celfyddydol, artistiaid a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r cyhoedd yn fuddiolwr allweddol gan mai egwyddor sylfaenol yr Adolygiad Buddsoddi yw meithrin tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd ein gwaith. Rydym yn bwriadu cynnwys pobl sydd â phrofiad personol ym mhenderfyniadau'r Adolygiad Buddsoddi.

## 3. A gynhwyswyd y bobl yr effeithir arnynt ac a ymgynghorwyd â nhw?

Cafodd gweithgarwch yr Adolygiad Buddsoddi ymgynghoriad cyhoeddus llawn arno gan gynnwys cyfle i wneud sylwadau ar ddrafft cychwynnol o'r ddogfen yma. Roeddem am roi cyfle i bawb – ac nid dim ond y sefydliadau sy'n cymryd rhan ym mhroses yr Adolygiad Buddsoddi – wneud sylwadau ar bwrpas a chanlyniad dymunol yr Adolygiad a'r broses ymgeisio yr ydym yn bwriadu ei defnyddio.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Gorffennaf 2022 a 10 Hydref 2022 a gofynnodd am adborth am y canlynol:

- Dogfen Ymgynghori a gynhwysai'r Ffurflen Gais a'r Canllawiau Diweddu
- Asesiad o'r Effaith Gyfunol

Trafododd y Cyngor ganlyniadau'r ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd a chyhoeddwyd ei ymateb ar 12 Rhagfyr 2022 wrth gyhoeddi fersiynau terfynol o'r uchod hefyd.

Agorodd y broses ymgeisio ddechrau Ionawr a daeth i ben ddiwedd Mawrth 2023. Cafodd yr argymhellion ariannu eu hystyried gan y Cyngor ar 7 ac 8 Medi 2023.

## 4. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, y Gymraeg a nodau Cenedlaethau'r Dyfodol?

Llenwch y tabl yn Atodiad 1 os gwelwch yn dda.

Os nodwch addasiadau, rhestrwch nhw yn y Templed Camau Gweithredu yn Atodiad 2.

Mae'r fersiwn yma o'r Asesiad o Effaith yn ystyried y penderfyniadau a wnaeth y Cyngor. Darllenwch Atodiad 1 i weld ystyriaeth fanwl o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ein penderfyniadau yn yr Adolygiad Buddsoddi ar bob un o'r uchod.

## 5. Sut bydd y Cynnig yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da?

Un o brif ddibenion yr Adolygiad Buddsoddi yw sicrhau bod pawb – ni waeth beth fo'u cefndir, eu lleoliad daearyddol neu eu diwylliant – yn gallu profi darpariaeth gelfyddydol o safon, boed hynny fel ymarferydd, gweithiwr, cyfranogwr neu aelod o'r gynulleidfa. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, buom yn cynnwys pobl â phrofiad personol yn ein hasesiadau a'n penderfyniadau yn ystod yr Adolygiad Buddsoddi.

Roedd yr Adolygiad Buddsoddi yn agored i bob sefydliad a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Fel darpar dderbynwyr symiau sylweddol o arian cyhoeddus, gosodwyd y meini prawf i sicrhau bod sefydliadau'n gallu dangos llywodraethu da a'u bod wedi'u cyfansoddi'n briodol i sicrhau y gallant fodloni gofynion perfformio, monitro ac adrodd ar gyfer sefydliad sy'n derbyn arian amlflwyddyn.

Rhoddwyd ar waith delerau'r Adolygiad Buddsoddi yn gyson i'r holl sefydliadau cymwys a wnaeth gais am drefniadau ariannu amlflwyddyn. Ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol bosibl sylweddol yn yr Asesiad o Effaith Gyfunol gyntaf ac ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol bosibl sylweddol yn dilyn y cyfarfod penderfynu. Ond mae rhai mân effeithiau gwahaniaethol, cadarnhaol a negyddol. Dangosir y rhain drwy'r ystyriaethau sydd yn yr atodiadau.

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd yr Asesiad Effaith Gyfunol gan:** | Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | Drafft – 8 Gorffennaf 2022<br>Terfynol – 11 Tachwedd 2022<br>Diweddariad – 22 Medi 2023 |

# Atodiad 1

## Asesiad Effaith a Chryfhau

Mae'r adran yma'n gofyn ichi asesu effaith y Cynnig ar bob un o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig, y Gymraeg a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r Cynnig ar y grwpiau canlynol.

### Nodwch effaith bosibl os gwelwch yn dda

| | + Effaith gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut mae'r categori'n cael ei effeithio a beth yw'r dystiolaeth o'r effaith? | Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut gallech hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** (ar draws yr holl ystod oedran) | Effaith gadarnhaol | | | Roedd llawer o'r sefydliadau sy'n derbyn arian yn cyfeirio at waith gyda phobl hŷn, pobl ifanc a gwaith pontio'r cenedlaethau fel rhai sy'n fwy canolog i'r rhaglen gyflenwi. | | Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau partner i gefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i bobl hŷn ymgysylltu â'r celfyddydau. |
| | Effaith gadarnhaol | | | Mae nifer o sefydliadau'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu prosiectau a chyfleoedd i bobl hŷn ac, ymhlith y sefydliadau newydd a ariannwn, mae rhai sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc. | | Un o egwyddorion arweiniol ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad yw bod pobl ifanc ac artistiaid yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu doniau gyda chyflogaeth.<br><br>Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys targedau manylach sy'n cynnwys ehangu Cynllun Cydweithwyr y Cyngor i gynnwys pobl ifanc mewnpenderfyniadau.<br><br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |

| | + Effaith gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut mae'r categori'n cael ei effeithio a beth yw'r dystiolaeth o'r effaith? | Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut gallech hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pobl F/fyddar ac Anabl** | Effaith gadarnhaol | | | Ein blaenoriaeth yw cefnogi a datblygu gwaith sy'n ceisio ymgorffori'r model cymdeithasol o anabledd. Mae'r model yma'n cydnabod bod pobl anabl yn anabl, nid oherwydd eu namau, ond oherwydd y rhwystrau yn ein cymdeithas.<br><br>Bydd ein penderfyniadau ariannu yn arwain at ragor o gyfleoedd i bobl fyddar, anabl a niwroamrywiol gael mynediad at y celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Dangoswyd hyn yn y ceisiadau a gawsom.<br><br>ydd sefydliadau newydd sy'n cael eu harwain gan bobl anabl yn cael eu hariannu a bydd eraill yn derbyn codiad yn eu harian. Mae ymrwymiad wedi'i wneud i gefnogi RAMPiau Cymru i drawsnewid hygyrchedd theatrau i ymarferwyr theatr anabl.<br><br>Byddwn hefyd yn gweithio tuag at sicrhau bod y sefydliadau a ariannwn yn ymrwymo i wrthableddiaeth. | | Mae rhagor o waith i'w wneud i hyrwyddo a gwella cyfleoedd i artistiaid ac aelodau anabl o'r cyhoedd.<br><br>Byddwn yn parhau i ariannu cyfleoedd datblygu i artistiaid a chwmnïau drwy ein cynllun Camau Creadigol.<br><br>Byddwn yn parhau i gefnogi cynllun cardiau hygyrchedd Hynt ac yn gweithio gyda Chynghorau Celfyddydol Prydain i'w ddatblygu fel gynllun ledled Prydain.<br><br>Byddwn yn gweithredu canfyddiadau'r gwaith comisiwn sy'n edrych ar ddatblygu safon isaf i wasanaeth theatr i bobl anabl wedi'u llywio a'u datblygu gan bobl fyddar ac anabl.<br><br>Byddwn yn parhau i gyflawni camau pellach fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.<br><br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |

| | + Effaith gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut mae'r categori'n cael ei effeithio a beth yw'r dystiolaeth o'r effaith? | Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut gallech hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ailbennu rhywedd** | | | Dim effaith | Nid yw'r broses Adolygiad Buddsoddi yn gwahaniaethu rhwng pobl ar sail eu rhywedd neu ailbennu eu rhywedd.<br><br>Mae ein hegwyddor sy'n ymwneud ag Ehangu Ymgysylltiad yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig gan gynnwys ailbennu rhywedd. | | Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | | | Dim effaith | Nid yw'r broses Adolygiad Buddsoddi yn gwahaniaethu rhwng pobl ar sail eu sefyllfa partneriaeth sifil/priodas. Felly, yn ein barn ni, ni chaiff effaith wahaniaethol. | | Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | | | Dim effaith | Er ein bod yn cydnabod y gallai fod perygl bach o ran y cymorth sydd ar gael i rai sefydliadau sy'n gwneud cais i'r Adolygiad Buddsoddi pe bai aelod allweddol o staff ar absenoldeb mamolaeth, ni fydd proses yr Adolygiad Buddsoddi ei hun yn gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd/mamolaeth. Felly, yn ein barn ni, ni chaiff effaith wahaniaethol. | | Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |

| | + Effaith gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut mae'r categori'n cael ei effeithio a beth yw'r dystiolaeth o'r effaith? | Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut gallech hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hil** | Effaith gadarnhaol | | | Ariannwn sefydliadau newydd sy'n cael eu harwain gan bobl amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig ac mae llawer o sefydliadau'n nodi cynlluniau clir ar gyfer cynyddu a gwella cyfleoedd i artistiaid, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol.<br><br>Ond nid oedd y maes yma o ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb mor gryf ag eraill ac mae angen gwneud rhagor o waith i wella cyfleoedd a lliniaru yn erbyn unrhyw effaith negyddol bosibl.<br><br>Byddwn hefyd yn gweithio tuag at sicrhau bod y sefydliadau rydym yn eu hariannu yn ymrwymo i wrth-hiliaeth.<br><br>Mae data o'r Arolwg diweddar o'r Portffolio yn dangos bod 146 o bobl o gefndiroedd ethnig a diwylliannol amrywiol yn cael eu cyflogi mewn sefydliadau yn y Portffolio yn 2022/23.<br><br>Roedd 77 o bobl o gefndiroedd ethnig a diwylliannol amrywiol ar fyrddau rheoli ein Portffolio yn 2022/23.<br><br>Mae hyn yn gynnydd ar ffigyrau'r blynyddoedd blaenorol ar gyfer 2021/22 pan oedd 59 o bobl o gefndiroedd ethnig a diwylliannol amrywiol ar fyrddau rheoli. | | Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl amrywiol o ran diwylliant ac ethnigrwydd yn faes ffocws allweddol i ni, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.<br><br>Byddwn yn parhau i ariannu cyfleoedd datblygu i artistiaid a chwmnïau drwy ein cynllun Camau Creadigol.<br><br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |

| | + Effaith gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut mae'r categori'n cael ei effeithio a beth yw'r dystiolaeth o'r effaith? | Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut gallech hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd / Cred** | | | Dim effaith | Nid yw'r broses Adolygiad Buddsoddi yn gwahaniaethu rhwng pobl ar sail eu crefydd neu eu credoau. Felly, yn ein barn ni, ni chaiff ein penderfyniadau effaith wahaniaethol.<br><br>Ond bydd angen inni sicrhau yn y dyfodol fod y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu yn ymrwymo i wrth-hiliaeth. | | Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |
| **Rhyw** | | | Dim effaith | Nododd Adroddiad yr Arolwg o Bortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru 2022/23 fod ychydig yn fwy o fenywod (283) na dynion (267) ar fyrddau ein Portffolio presennol. Er bod gwahaniaeth bach yma, nid yw'r broses Adolygiad Buddsoddi yn gwahaniaethu ar sail rhyw. Felly, yn ein barn ni, ni chaiff effaith wahaniaethol. | | Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | Dim effaith | Nid yw ein penderfyniadau wedi cael unrhyw effaith o ran y nodwedd yma. Mae'r sefydliadau rydym yn ariannu'n cyfeirio at gyfeiriadedd rhywiol yn eu gwaith a'u rheolaeth. | | Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. |

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | + Effiath gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br><br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden | Effaith gadarnhaol | | | O ran materion ymarferol yn ymwneud â chydymffurfio, staffio a hyfforddiant, ymatebodd y rhan fwyaf o sefydliadau yn dda i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg. Mae llawer yn ymrwymo i gyflawni Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth dda a gweithio yn y dyfodol oddi ar waelodlin.<br><br>Bydd ein penderfyniadau hefyd yn arwain at gynnydd mewn sefydliadau dan arweiniad siaradwyr Cymraeg gyda'r ganran gyffredinol yn mynd o 25% i 30%.<br><br>Mae darparu gweithgarwch yn y Gymraeg yn faes allweddol o ffocws inni. Mae ein hegwyddor Gymraeg yn y Ddogfen Ymgynghori ar yr Adolygiad Buddsoddi a'r gwaith rydym yn ei wneud i ddatblygu ein Strategaeth Gymraeg mewn ymateb i argymhellion yr Adroddiad Mapio'r Gymraeg. | | Bydd gwneud y mwyaf o gyfleoedd i sefydliadau ddefnyddio poblogrwydd, potensial a dylanwad y celfyddydau i helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei huchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a datblygu a hyrwyddo ymdeimlad o berchnogi ar y Gymraeg a dysgu a defnyddio'r Gymraeg a chyflawni'r gwasanaeth hanfodol o gynhyrchu gwaith ar gyfer (a chyda) siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn parhau i fod yn amcan allweddol inni.<br><br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran y Gymraeg. |

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | + Effiath gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | | | Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro'n agos gan y Cyngor drwy Bwyllgor y Gymraeg. Dangosodd yr Arolwg o'r Portffolio yn 2022/23 fod 33,421 o bobl wedi mynychu perfformiadau teithiol Cymraeg. Mae hyn yn gynnydd ers 2021/22 pan oedd 15,810 yn mynychu. O'i gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig roedd 43,682 yn mynychu yn 2019/20.<br><br>Gwnaed 42,381 o fynychiadau i berfformiadau mewn lleoliadau yn y Portffolio yn ystod 2022/23 sy'n gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan nodwyd bod 9,233. Dangosodd yr Arolwg o'r Portffolio yn 2019/20 fod 24,636 o bobl wedi mynychu perfformiadau Cymraeg mewn lleoliadau yn y Portffolio. | | |

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | + Effiath gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru o Gymunedau Cydlynol**<br><br>Cymunedau sy'n ddeniadol, yn ddiogel, yn hyfyw ac wedi'i gysylltu'n dda. | Effaith gadarnhaol | Effaith negyddol | | Mae ein penderfyniadau wedi ceisio cydbwyso arian ar draws ardaloedd daearyddol ehangach ond mae effaith negyddol mewn rhai cymunedau gyda llai o sefydliadau celfyddydol yn cael cynnig arian amlflwyddyn.<br><br>Gallai hyn hefyd gael effaith negyddol ar nod Cymru Lewyrchus.<br><br>Mae gweledigaeth yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn adeiladu ar nod ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad i sicrhau bod ein harian yn cyrraedd cymunedau yn ehangach. Ein bwriad yw cefnogi sector sydd â chysylltiad dwfn â chymunedau, yn enwedig y rhai sydd heb ddigon o wasanaeth ar hyn o bryd a'r rhai sy'n parhau i wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu â'r celfyddydau. | Byddwn yn parhau i gyflawni ein cynllun gweithredu Ehangu Ymgysylltiad sy'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi sector sydd â chysylltiad dwfn â chymunedau. | Mae ein Canllawiau Adolygu Buddsoddi yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymunedau fel un o'r 6 egwyddor ar gyfer buddsoddi dan **Ehangu Ymgysylltiad**, a phwysigrwydd sicrhau bod pob cymuned ar draws Cymru yn cael eu cyffwrdd gan arian Cyngor y Celfyddydau, gan gynnwys drwy fuddsoddi mewn gweithgarwch cyfranogol creadigol a chyflogaeth uniongyrchol yn y celfyddydau. |

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | + Effiath gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang**<br>"Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang" | Effaith gadarnhaol | | | Mae ein hegwyddor sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd drwy greadigrwydd a gweithredu cynaliadwy yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesegol yn ymrwymo i gefnogi sefydliadau sy'n gwneud dewisiadau moesegol ac ystyried yr effaith ar bobl a'r blaned yn lleol ac yn fyd-eang yn ein holl benderfyniadau. Bydd yr angen i fynd i'r afael â materion byd-eang fel annhegwch, yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng costau byw yn cael ei osod ochr yn ochr â fframwaith cyfreithiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar ben hynny, nodwn y Contract Diwylliannol sy'n cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru fel un mecanwaith ar gyfer atebolrwydd wrth symud ymlaen. | | Mae ein hegwyddor sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd yn cydnabod pwysigrwydd creadigrwydd a gweithredu cynaliadwy yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesegol.<br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran cyfiawnder hinsawdd. |

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | + Effiath gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | Effaith negyddol | | Er bod ein hegwyddor cyfiawnder hinsawdd yn nodi'n glir ein hymrwymiad i gynaliadwyedd moesegol, bydd y diffyg mesurau pendant sydd ar waith ar gyfer asesu'r defnydd o adnoddau naturiol, masnach deg, cyflogaeth a chaffael moesegol yn ei gwneud hi'n anodd gwneud asesiad cywir ynghylch a yw sefydliadau a ariannwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang. | Rydym yn datblygu strategaeth ar gyfer cyfiawnder hinsawdd a'r celfyddydau a fydd yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid a'r sector i sefydlu mecanweithiau ar gyfer sefydlu data sylfaenol a thechnegau monitro effeithiol. Bydd y strategaeth hefyd yn edrych ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar y sector i allu gweithredu mewn ffordd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang. | |

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | + Effiath gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Iachach**<br>"Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol" | Effaith gadarnhaol | | | Mae ein rhaglen, y Celfyddydau ac Iechyd, wedi dangos yn glir yr effaith gadarnhaol y mae'r celfyddydau yn ei chael ar iechyd, iechyd meddwl a lles.<br>Mae gweithgarwch y celfyddydau ac iechyd yn sail i 6 egwyddor yr Adolygiad Buddsoddi, yn enwedig Creadigrwydd, Tegwch a Thrawsnewid.<br>Mae ein penderfyniadau wedi arwain at gefnogi sefydliadau sy'n ymwneud â'r celfyddydau ac iechyd fel ffocws canolog eu gwaith. | | Drwy barhau i ddatblygu a hyrwyddo rhaglen y Celfyddydau ac Iechyd a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei chael ar gymdeithas. |

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | + Effiath gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br><br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | | Effaith negyddol | | Gweler Cymunedau Cydlynus uchod. | Gweler Cymunedau Cydlynus uchod. | Mae ein penderfyniadau ariannu yn dangos ein hymrwymiad i Gymru lewyrchus a byddwn yn hyrwyddo'r effaith gadarnhaol yn ein cyfathrebu a'n monitro yn y dyfodol. |
| | Effaith gadarnhaol | | | Nododd papur yr Adolygiad Buddsoddi ddull newydd o ddosbarthu arian amlflwyddyn i sefydliadau, gydag opsiynau amlflwyddyn ar gyfer costau craidd ac arian prosiectau a fydd ar gael. Bydd yn fodel llawer mwy hyblyg ac ymatebol i sefydliadau a fydd yn symlach ac yn llai beichus i bob un ohonom sydd mor ymrwymedig i'r sector celfyddydol. Bwriad y model yw helpu sefydliadau sydd â'r adnoddau ariannol a'r sefydlogrwydd y maent wedi'u profi sydd eu hangen arnynt er mwyn iddynt allu cyflawni'r gweithgarwch yn ôl ein hamcanion strategol y maent wedi ymrwymo iddynt, mewn ffordd sy'n ymateb yn fwy hyblyg i'w sefyllfaoedd a'u hanghenion unigol. | | Mae ein hegwyddor sy'n ymwneud â meithrin talent yn cydnabod pwysigrwydd meithrin sgiliau a datblygu potensial cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Mae ein hegwyddor sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd yn ymrwymo i ddatgarboneiddio ein hymarfer i sicrhau sector celfyddydol sy'n garbon niwtral erbyn 2030 a sero net erbyn 2050. |

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | + Effiath gadarnhaol | – Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | | | | Yn ogystal, mae ein hegwyddor o ran meithrin talent yn cydnabod yr angen i sefydliadau feithrin sgiliau a datblygu cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Mae ein hegwyddor sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd yn ymrwymo i ddatgarboneiddio ein hymarfer i sicrhau sector celfyddydol sy'n garbon niwtral erbyn 2030 a sero net erbyn 2050.<br><br>Mae ein penderfyniadau'n adlewyrchu pob un o'r uchod. | | |
| **Cymru Wydn**<br><br>"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid." | Effaith gadarnhaol | | | Mae ein hegwyddor sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd yn ymrwymo i gymryd perchnogaeth ar yr argyfyngau hinsawdd a natur gan gynnwys mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a galluogi artistiaid i wireddu potensial y celfyddydau i effeithio ar newid yng Nghymru a'r byd drwy werthoedd empathi, undod ac iachâd. | | Mae ein hegwyddor sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd yn ymrwymo i gymryd perchnogaeth ar yr argyfyngau hinsawdd a natur gan gynnwys mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a galluogi artistiaid i wireddu potensial y celfyddydau i effeithio ar newid yng Nghymru a'r byd drwy werthoedd empathi, undod ac iachâd. |

# Atodiad 2

## Camau a nodwyd drwy'r asesiad

Pan fyddwch yn creu gweithred, rhaid ichi sicrhau y gellir ei gyflawni. Mae angen ichi drafod y camau gweithredu gyda'r swyddog a fydd yn arwain ar ei gyflawni (os nad chi sy'n ei wneud). Sicrhewch eich bod yn cytuno ar yr amserlen, yn ogystal â sut y bydd yn cael adnoddau i gyflwyno a monitro'r camau. Rhaid gwneud hyn cyn cymeradwyo'r asesiad a'r cynnig cysylltiedig.

| Pwnc | Gweithred/Tasg | Prif gyfrifoldeb | Amserlen | Goblygiadau adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oed**<br><br>Gwella a chynyddu cyfleoedd i bobl hŷn a phobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau.<br><br>Sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y celfyddydau. | Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau partner i gefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i bobl hŷn ymgysylltu â'r celfyddydau.<br><br>Byddwn yn datblygu cynlluniau ariannu sydd â'r nod o wella ymgysylltiad i bobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n profi tlodi neu sydd mewn perygl.<br><br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. | Uwch Dîm Arwain | Parhaus<br><br>2023-2025<br><br>Datblygu dull gweithredu a ddaw i ben erbyn Ionawr 2024 | Argaeledd arian i fynd i'r afael â chamau/ ymyriadau allweddol | Gweithgarwch a gefnogir gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau penodol a chraffu rheolaidd. |

| Pwnc | Gweithred/Tasg | Prif gyfrifoldeb | Amserlen | Goblygiadau adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pobl F/fyddar ac anabl**<br><br>Rydym yn ymwybodol bod rhagor o waith i'w wneud i gynyddu cyfleoedd i artistiaid a phobl fyddar, anabl a niwroamrywiol ymgysylltu â'r celfyddydau. | Byddwn yn parhau i ariannu cyfleoedd datblygu i artistiaid a chwmnïau drwy ein cynllun, Camau Creadigol.<br><br>Byddwn yn cefnogi cynllun cardiau hygyrchedd Hynt ac yn gweithio gyda Chynghorau Celfyddydol Prydain i'w ddatblygu yn gynllun ledled Prydain.<br><br>Byddwn yn gweithredu canfyddiadau'r gwaith comisiwn sy'n edrych ar ddatblygu safon isaf i wasanaeth theatr i bobl anabl wedi'u llywio a'u datblygu gan bobl fyddar ac anabl.<br><br>Byddwn yn parhau i gyflawni camau pellach fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.<br><br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. | Uwch Dîm Arwain | Parhaus<br><br>Medi hyd Fawrth 2024<br><br>Ar ôl Mawrth 2024<br><br>2023–2025<br><br>Datblygu dull gweithredu a ddaw i ben erbyn Ionawr 2024 | Argaeledd arian i fynd i'r afael â chamau/ ymyriadau allweddol. | Gweithgarwch a gefnogir gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau penodol a chraffu rheolaidd. |

| Pwnc | Gweithred/Tasg | Prif gyfrifoldeb | Amserlen | Goblygiadau adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hil**<br><br>Rydym yn ymwybodol bod rhagor o waith i'w wneud i gynyddu cyfleoedd i artistiaid a phobl o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol i ymgysylltu â'r celfyddydau. | Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl amrywiol o ran diwylliant ac ethnigrwydd yn faes ffocws allweddol i ni, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.<br><br>Byddwn yn parhau i ariannu cyfleoedd datblygu i artistiaid a chwmnïau drwy ein cynllun, Camau Creadigol.<br><br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chydraddoldeb. | Uwch Dîm Arwain | 2023–2025<br><br>Parhaus<br><br>Datblygu dull gweithredu a ddaw i ben erbyn Ionawr 2024 | Argaeledd arian i fynd i'r afael â chamau/ ymyriadau allweddol. | Gweithgarwch a gefnogir gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau penodol a chraffu rheolaidd. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus a;**<br>**Cymru Lewyrchus**<br><br>Mae ein penderfyniadau wedi arwain at danwasanaethu rhai cymunedau o ran y celfyddydau. | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu cyfres o ymyriadau strategol gan gynnwys datblygu ein perthynas ag awdurdodau lleol i weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r ardaloedd sydd bellach yn cael eu tanwasanaethu o ganlyniad i'n penderfyniadau.<br><br>Bydd ein cytundebau ariannu a'n prosesau monitro'n nodi disgwyliadau a gofynion clir o ran ehangu ymgysylltiad a chymunedau. | Uwch Dîm Arwain | Cynlluniau i'w datblygu erbyn diwedd Mawrth 2024<br><br>Datblygu dull gweithredu a ddaw i ben erbyn Ionawr 2024 | Argaeledd arian i fynd i'r afael â chamau/ ymyriadau allweddol. | Gweithgarwch a gefnogir gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau penodol a chraffu rheolaidd. |

| Pwnc | Gweithred/Tasg | Prif gyfrifoldeb | Amserlen | Goblygiadau adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang**<br><br>Er bod ein hegwyddor cyfiawnder hinsawdd yn nodi'n glir ein hymrwymiad i gynaliadwyedd moesegol, bydd y diffyg mesurau pendant sydd ar waith i asesu'r defnydd o adnoddau naturiol, masnach deg, cyflogaeth a chaffael moesegol yn ei gwneud hi'n anodd gwneud asesiad cywir ynghylch a yw sefydliadau a ariannwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang. | Rydym yn datblygu strategaeth ar gyfer cyfiawnder hinsawdd a'r celfyddydau a fydd yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid a'r sector i sefydlu mecanweithiau ar gyfer sefydlu data sylfaenol a thechnegau monitro effeithiol. Bydd y strategaeth hefyd yn edrych ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar y sector i allu gweithredu mewn ffordd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang. | Datblygu'r Celfyddydau<br><br>Uwch Dîm Arwain/ Cymeradwyaeth y Cyngor | Cynlluniau i'w datblygu erbyn diwedd Mawrth 2024 (megis uchod) | Argaeledd arian i fynd i'r afael â chamau/ ymyriadau allweddol. | Gweithgarwch a gefnogir gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau penodol a chraffu rheolaidd. |

**Sut bydd y rhain yn cael eu monitro?**

Gan yr Uwch Dîm Arwain a'u hadrodd i'r Cyngor.

**Sut a lle bydd hyn yn cael ei gyhoeddi?**

Bydd yr Asesiad diweddaraf o Effaith yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.